

7^{ed} Argraffiad Rheoliadau Academaidd Cyffredin
Graddau MPhil a PhD Prifysgol Cymru

Tabl Cynnwys

1	Cyflwyniad.....	2
2	Graddau Ymchwil y mae'r Rheoliadau'n Berthnasol Iddynt	Error! Bookmark not defined.
2.1	Meistr mewn Athroniaeth (MPhil)	drwy
	Ymchwil.....	Error! Bookmark not defined.
2.2	Doethur mewn Athroniaeth (PhD)	drwy
	Ymchwil.....	Error! Bookmark not defined.
3	Gofynion Cymhwysu a Dulliau Astudio	Error! Bookmark not defined.
4	Gofynion Mynediad.....	3
5	Cofrestru.....	Error! Bookmark not defined.
6	Trosglwyddo Cofrestriad o Sefydliad Arall	4
7	Cynnydd, monitro ac adroddiadau.....	Error! Bookmark not defined.
8	Matriciwleiddio	5
9	Cymeradwyaeth.....	6
10	Dyddiad Dechrau Gradd Ymchwil.....	6
11	Cyfnodau Astudio Gofynnol.....	6
12	Penodi Goruchwylwyr	8
13	Cynefino, Hyfforddiant a Datblygiad Proffesiynol	8
14	Y Bwrdd Arholi.....	8
15	Arholiadau	9
16	Trosglwyddo o MPhil/PhD drwy Ymchwil i PhD drwy Ymchwil.....	11
17	Apeliadau.....	12
	Atodiad 1: Fformatio, Rhwymo a Chyflwyno Traethodau Ymchwil.....	13
1.	Fformat y Traethawd Ymchwil.....	13
2.	Rhwymo'r Traethawd Ymchwil.....	15
3.	Cyflwyno'r Traethawd Ymchwil.....	16
	Atodiad 2: Trosglwyddo Ymgeisyddiaeth.....	17

1 Cyflwyniad

- 1.1. Mae'r tudalennau hyn yn cynnwys y Rheoliadau ar gyfer graddau MPhil drwy Ymchwil a PhD drwy Ymchwil Prifysgol Cymru (y cyfeirir ati o hyn allan fel 'y Brifysgol') a gynigir mewn Sefydliadau Achrededig a Chyswllt ('Sefydliadau') ac mewn Canolfannau Cydweithredol ('Canolfannau').

Mae'r Rheoliadau'n berthnasol i ymgeiswyr sy'n dechrau ar, neu ar ôl dyddiad cyflwyno'r Fframwaith Academaidd Cyffredin ar gyfer Graddau Ymchwil y Brifysgol, sef 1 Medi 2010. Anogir ymgeiswyr sydd wedi cofrestru mewn Sefydliadau/Canolfannau cyn y dyddiad hwn i gysylltu â'r Gofrestrfa Academaidd¹ briodol er mwyn cael cyngor ar y Rheoliadau sy'n berthnasol i'w hastudiaethau nhw.

Dylai pob ymgeisydd sydd wedi cofrestru dan y Rheoliadau canlynol fod yn ymwybodol y gall Sefydliadau/Canolfannau feddu ar ganllawiau ychwanegol a dogfennau perthnasol, ac eto dylid ceisio cyngor gan y Gofrestrfa Academaidd briodol.

- 1.2 Mae'r Rheoliadau'n ceisio darparu fframwaith sy'n ymgorffori arfer da sy'n cael ei gydnabod yn genedlaethol, ynghyd ag arfer sy'n deillio o bolisiau a/neu godau ymarfer cyrff megis yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd, y cyngorau cyllido cenedlaethol a chynghorau ymchwil. Mae'r fframwaith felly'n amodol ar adolygiad blynyddol a chaiff ei ddiwygio o bryd i'w gilydd yn unol â gofynion y Bwrdd Academaidd.

- 1.3 Mae'r Brifysgol yn anelu at sicrhau:

bod ei safonau academaidd yn gyfartal â safonau sefydliadau addysg uwch eraill yn y DU ac yn gyson â'r Fframwaith Sicrhau Ansawdd ar gyfer Cymwysterau Addysg Uwch

a

bod ansawdd y ddarpariaeth yn rhoi cyfle teg a rhesymol i ymgeiswyr ennill cymhwyster mewn cyfnod amser derbyniol.

- 1.4 Mae'r Rheoliadau ar gyfer fformatio, rhwymo a chyflwyno traethodau ymchwil yn cael eu nodi yn yr Atodiad i'r ddogfen hon.

- 1.5 Gofynnir i ymgeiswyr ymglyfarwyddo â chynnwys Llawlyfr Myfyrwyr Ymchwil Ôl-raddedig a fydd ar gael gan y Sefydliad/Canolfan ble maent wedi cofrestru, ynghyd â Chod Ymarfer ar gyfer Graddau Ymchwil y Brifysgol. Mae dogfennau fel Llawlyfr Myfyrwyr Ymchwil Ôl-raddedig a'r Cod Ymarfer ar gyfer Graddau Ymchwil yn rhoi cyngor ac arweiniad ond maent yn israddol i'r Rheoliadau.

2 Graddau Ymchwil y Mae'r Rheoliadau'n Berthnasol Iddynt

2.1 *Meistr mewn Athroniaeth (MPhil) drwy Ymchwil*

Gall y Brifysgol ddyfarnu Gradd Meistr mewn Athroniaeth drwy Ymchwil i gydnabod cwblhau'n llwyddiannus raglen ymchwil ac astudiaeth uwch, y bernir bod ei

¹ Dylid cymryd mai ystyr y term Cofrestrfa Academaidd yw Cofrestrfa Academaidd, neu awdurdod cyfatebol, y Sefydliad/Canolfan ble mae'r ymgeisydd wedi cofrestru ar gyfer astudio.

chanlyniadau'n werthusiad ac yn ddadansoddiad beirniadol o gorff o wybodaeth a/neu'n gyfraniad gwreiddiol at ddysg neu wybodaeth.

2.2 **Doethur mewn Athroniaeth (PhD) drwy Ymchwil**

Gall y Brifysgol ddyfarnu Gradd Doethur mewn Athroniaeth drwy Ymchwil i gydnabod cwblhau'n llwyddiannus raglen ymchwil ac astudiaeth uwch, y bernir bod ei chanlyniadau'n gwneud cyfraniad gwreiddiol at ddysg neu wybodaeth, ac yn rhoi tystiolaeth o astudiaeth systematig a gallu i berthnasu canlyniadau'r fath astudiaeth â'r corff cyffredinol o wybodaeth yn y pwnc.

Wrth farnu ynghylch teilyngdod traethawd ymchwil a gyflwynwyd mewn ymgeisyddiaeth am radd PhD drwy Ymchwil, bydd yr arholwyr yn cadw mewn cof safon a chwmpas gwaith y gellid disgwyl yn rhesymol i fyfyrwr galluog a diwyd ei gyflwyno yn dilyn cyfnod ddwy neu dair blynedd (fel y bo'n briodol) o astudiaeth llawn amser neu gyfnod cyfatebol yn rhan amser.

Ni ellir cyflwyno gradd Doethur y Brifysgol mewn Athroniaeth *honoris causa*.

3 **Gofynion Cymhwyso a Dulliau Astudio**

3.1 Mae'n rhaid i fyfyrwr ymchwil fatriciwleiddio os nad ydynt wedi gwneud hynny eisoes, parhau â'u cofrestriad, talu'r holl ffioedd perthnasol ac ymgymryd â phrosiect ymchwil cymeradwy am yr isafswm cyfnod gofynnol ar gyfer un o'r pedwar dull astudio a ganiateir ym mharagraff 3.2 o'r Rheoliadau isod.

3.2 Gall myfyrwr ymgymryd â gradd MPhil drwy Ymchwil neu PhD drwy Ymchwil trwy un o'r dulliau astudio canlynol:

- i. ymgymryd ag ymchwil llawn amser mewn Sefydliad/Canolfan;
- i. ymgymryd ag ymchwil llawn amser mewn man allanol a gymeradwyir gan y Brifysgol i'r diben hwnnw;
- ii. ymgymryd ag ymchwil rhan amser yn allanol;
- iii. ymgymryd ag ymchwil rhan amser mewn Sefydliad/Canolfan.

4 **Gofynion Mynediad**

4.1 Y gofynion derbyn isaf arferol ar gyfer ymgeiswyr am raddau ymchwil yw gradd anrhydedd ail ddosbarth uwch *neu* radd meistyr sy'n berthnasol i'r prosiect ymchwil arfaethedig, ac a ddyfarnwyd gan Brifysgol yn y DU neu Brifysgol neu sefydliad addysg uwch cydnabyddedig arall, neu gan y Cyngor Dyfarniadau Academaidd Cenedlaethol (CNAA).

4.2 Mae'n bosibl y caiff ymgeiswyr nad ydynt yn meddu ar y cymwysterau derbyn isaf arferol eu hystyried am ymgeisyddiaeth yn ôl eu haeddiant fel y nodir isod. Yn y naill achos a'r llall bydd y Sefydliad/Canolfan yn cymryd y camau y bernir eu bod yn angenrheidiol i brofi cyrhaeddiad ac addasrwydd academaidd y myfyrwr i ymgymryd ag ymchwil a bydd hefyd yn sicrhau y derbynnir y gymeradwyaeth angenrheidiol gan y Bwrdd Graddau a

Dyfarniadau Academaidd² mewn achosion o fynediad ansafonol cyn i'r astudiaeth ddechrau:

- os oes ganddynt radd Anrhydedd o Brifysgol yn y DU neu Brifysgol neu sefydliad addysg uwch cydnabyddedig arall neu o'r CNAA ar lefel is nag ail ddsbarth uwch ac nid oes ganddynt radd meistr berthnasol;

neu,

- os oes ganddynt gymhwyster arall neu brofiad ar lefel y mae Prifysgol Cymru yn barnu ei fod yn gyfartal â, neu'n uwch na, gradd Anrhydedd ail ddsbarth uwch o Brifysgol yn y DU.

4.3 Yn ychwanegol at y gofynion mynediad uchod, rhaid i fyfyrwyr allu bodloni'r awdurdodau academaidd perthnasol ynghylch eu hyfedredd yn y Gymraeg neu'r Saesneg ar lefel angenrheidiol i gwblhau'r rhaglen waith yn yr iaith ddewisol, a pharatoi ac amddiffyn traethawd ymchwil yn yr iaith honno. Fel arfer gall myfyrwyr sydd ag iaith heblaw Cymraeg neu Saesneg yn famiaith iddynt arddangos hyfedredd yn y Saesneg trwy gael isafswm sgôr IELTS (neu sgôr gyfatebol) o 6.5 adeg mynediad gydag isafswm o 6.5 yn yr elfennau darllen ac ysgrifennu. Gofynnir i fyfyrwyr ddarparu'r dystiolaeth sy'n angenrheidiol ym marn y Brifysgol.

5 Cofrestru

5.1 Rhaid i fyfyrwyr am raddau ymchwil gwblhau'r ffurflen gofrestru briodol a darparu'r dogfennau adnabod ffurfiol sy'n ofynnol gan y Brifysgol. Wrth gofrestru daw'r myfyrwyr yn gyfrifol am dalu ffioedd.

5.2 Cyn gynted ag y bo modd ar ôl cofrestru caiff myfyrwyr gyfle i gwblhau rhaglen gynefino'r Sefydliad/Canolfan ble maent wedi cofrestru.

6 Trosglwyddo Cofrestriad o Sefydliad Arall

6.1 Os bu myfyrwyr yn cyflawni gwaith ymchwil dan arolygiaeth mewn Prifysgol arall cyn cofrestru mewn Sefydliad/Canolfan, gall y myfyrwyr wneud cais i gynnwys y gwaith ymchwil cynharach hwnnw fel rhan o'r gwaith a gyflwynir yn y traethawd ymchwil. Mewn achos o'r fath byddai'n rhaid i'r rhan fwyaf o'r gwaith (h.y. mwy na 50%) a gyflwynir yn y traethawd fod yn gysylltiedig ag ymchwil a gwblhawyd dan nawdd y Sefydliad/Canolfan ar ôl cofrestriad.

6.2 Wrth ystyried ceisiadau i drosglwyddo'r achrediad am ddysgu blaenorol, bydd angen y canlynol ar Bwyllgor Graddau Ymchwil³ y Sefydliad/Canolfan:

- i. llythyr cytundeb oddi wrth y sefydliad blaenorol;
- ii. copi o'r prosiect ymchwil gwreiddiol a gymeradwywyd;
- iii. adroddiad cynnydd gan y goruchwyliwr;
- iv. dyddiad cofrestru gwreiddiol;
- v. teitl yr ymchwil;
- vi. enwau a chyfeiriadau'r goruchwylwyr.

² Dylid cymryd mai ystyr cyfeiriadau at y Bwrdd Graddau a Dyfarniadau Academaidd yw Bwrdd Academaidd Prifysgol Cymru. (Gweler nodyn 3 isod hefyd, sy'n ymwneud â Phwyllgorau Graddau Ymchwil).

³ Dylid cymryd mai ystyr cyfeiriadau at Bwyllgor/Pwyllgorau Graddau Ymchwil Sefydliadau/Canolfannau yw Pwyllgorau Sefydliad/Canolfan ac ni ddylid eu cymysgu â Bwrdd Graddau a Dyfarniadau Academaidd Prifysgol Cymru.

- 6.3 Pan fydd yn fodlon fod yr achos yn un priodol i'w drosglwyddo, bydd y Pwyllgor Graddau Ymchwil yn cael sêl bendith y Bwrdd Graddau a Dyfarniadau Academaidd Prifysgol Cymru cyn cofrestru'r ymgeisydd a chyn iddo ef/hi gychwyn astudio.

7 Cynnydd, Monitro ac Adroddiadau

- 7.1 Bydd y Sefydliad/Canolfan yn sefydlu, o leiaf yn flynyddol, a yw ymgeiswyr:
- wrthi o hyd yn gweithio ar y prosiect ymchwil ac yn gwneud cynnydd boddhaol;
 - yn cadw mewn cysylltiad rheolaidd ac aml â'r tîm goruchwylio;
 - yn debygol o gwblhau'n llwyddiannus o fewn y cyfnod astudio disgwylidiedig.

Bydd y Pwyllgor Graddau Ymchwil yn penderfynu ar ganlyniad y broses fonitro flynyddol ac a ddylid caniatáu i'r ymgeisydd ailgofrestru. Yna bydd adroddiad yn cael ei wneud i Fwrdd Graddau a Dyfarniadau Academaidd y Brifysgol.

- 7.2 Mae'n ofynnol yn sgil y broses hon i ymgeiswyr a thimau goruchwylio gyflwyno adroddiadau monitro blynyddol i'r Sefydliad/Canolfan gan roi manylion y cynnydd a wnaed gyda'r prosiect, amllder y cyfarfodydd goruchwylio ffurfiol (ac anffurfiol), a'r amserlen arfaethedig ar gyfer cwblhau'r prosiect yn llwyddiannus. Mae'r adroddiad yn cynnwys adrannau y mae'n rhaid i fyfyrwyr eu cwblhau, ac adrannau y mae'n rhaid i'r tîm goruchwylio eu cwblhau; er y cyflwynir yr adroddiad fel arfer ar ffurf adroddiad ar y cyd, gall myfyrwyr neu dimau goruchwylio benderfynu cyflwyno adroddiadau annibynnol. Rhaid i adroddiadau blynyddol gael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Graddau Ymchwil cyn ailgofrestru.

Yn yr adroddiad rhaid i'r tîm goruchwylio naill ai argymell cyfnod cofrestru pellach, cyfnod penodol o waith adfer i gael ei gwblhau o fewn cyfnod amser penodol neu derfynu'r cofrestriad. Dylai'r Pwyllgor Graddau Ymchwil ddarparu adroddiadau cyfansymiol i'r Bwrdd Graddau a Dyfarniadau Academaidd, a dylid amlygu achosion penodol ble yr argymhellir terfynu.

- 7.3 Os yw'r adroddiad yn dangos bod ffactorau sy'n amharu ar gynnydd wedi rhwystro cyflawniad yr amcanion disgwylidiedig am y flwyddyn bydd y Sefydliad/Canolfan yn penderfynu, dan yr amgylchiadau, a yw cynnydd wedi bod yn foddhaol ac a yw'r amserlen arfaethedig yn realistig.
- 7.4 Anogir ymgeiswyr i roi gwybod i'r Pwyllgor Graddau Ymchwil ar unrhyw adeg am faterion sy'n effeithio ar gynnydd boddhaol trwy gyflwyno ffurflen adroddiad ymgeisydd.
- 7.5 Ni chaniateir i ymgeiswyr mewn Sefydliadau/Canolfannau ailgofrestru tan i'r adroddiad cynnydd gael ei gymeradwyo gan y Pwyllgor Graddau Ymchwil a'r Bwrdd Graddau a Dyfarniadau Academaidd. Os barnwyd bod y cynnydd yn anfoddhaol, bydd cofrestriad yr ymgeisydd yn cael ei derfynu. Gall ymgeiswyr apelio yn erbyn y penderfyniad hwn.

8 Matriciweiddio

- 8.1 Ystyr matriciweiddio yw dilysu'n ffurfiol gymwysterau ymgeiswyr ar gyfer cynllun astudio sy'n arwain at radd neu ddyfarniad academaidd arall gan y Brifysgol. Mae'n ofynnol i ymgeiswyr nad ydynt yn raddedigion o'r Brifysgol fatriciweiddio cyn cofrestru. Gellir cael manylion y broses o fatriciweiddio o Gofrestrfa Academaidd, neu awdurdod cyfatebol, y Sefydliad/Canolfan.

- 8.2 Nid yw ymgeiswyr sydd heb fatriciweiddio yn gymwys i gyflwyno am y radd.

9 Cymeradwyaeth

- 9.1 Ar ôl cofrestru, rhaid i fyfyrwyr am radd ymchwil yn y Brifysgol gael cymeradwyaeth y Bwrdd Graddau a Dyfarniadau Academaidd ar gyfer y prosiect ymchwil, fel y'i disgrifir ar y Ffurflen Gynnig am Radd Ymchwil. Fel arfer bydd ceisiadau am gymeradwyaeth o'r fath yn cael eu cyfeirio at y Bwrdd Graddau a Dyfarniadau Academaidd trwy Bwyllgor Graddau Ymchwil y Sefydliad/Canolfan.
- 9.2 Gall Bwrdd Graddau a Dyfarniadau Academaidd y Brifysgol gymeradwyo prosiectau gradd ymchwil neu gall atal cymeradwyaeth am resymau academaidd gan gynnwys methodoleg neu gyfleusterau ymchwil annigonol neu amhriodol. Os fydd yr ymchwil yn cynnwys cyfranogwyr dynol, defnyddiau dynol, data personol neu anifeiliaid, rhaid cael cymeradwyaeth foesol gan Bwyllgor Moeseg Ymchwil sy'n gymeradwy gan Bwyllgor Moeseg Ymchwil y Brifysgol.
- 9.3 Fel arfer bydd ymgeiswyr sy'n ymgymryd â gradd PhD drwy Ymchwil yn cael eu cofrestru yn y lle cyntaf fel ymgeiswyr ar gyfer MPhil/PhD (Meistr mewn Athroniaeth gyda'r posibilrwydd o drosglwyddo i radd Doethur mewn Athroniaeth) (gweler paragraff 11.5). Cymerir y penderfyniad i ganiatáu i ymgeiswyr ymgymryd â PhD drwy Ymchwil gan y Bwrdd Graddau a Dyfarniadau Academaidd ar sail adroddiad trosglwyddo boddhaol gan y panel trosglwyddo a chymeradwyaeth gan Bwyllgor Graddau Ymchwil y Sefydliad/Canolfan ble mae'r ymgeisydd yn astudio.
- 9.4 Rhaid i'r cais cychwynnol i Drosglwyddo Cofrestriad o MPhil/PhD i PhD gael ei wneud o fewn cyfnod o 18 mis wedi'r dyddiad cofrestru yn achos ymgeiswyr llawn amser, ac o fewn 30 mis yn achos ymgeiswyr rhan amser; rhaid i Bwyllgor Graddau Ymchwil priodol y Sefydliad/Canolfan gymeradwyo trosglwyddo'r cofrestriad (yn amodol ar gadarnhad gan y Bwrdd Graddau a Dyfarniadau Academaidd) o fewn 24 mis wedi'r dyddiad cofrestru yn achos ymgeiswyr llawn amser, ac o fewn 36 mis wedi'r dyddiad cofrestru yn achos ymgeiswyr rhan amser.

10 Dyddiad Dechrau Gradd Ymchwil

Dyddiad dechrau rhaglen astudio gradd ymchwil yw'r dyddiad cofrestru cychwynnol.

11 Cyfnodau Astudio Gofynnol

- 11.1 Nodir isod y cyfnodau astudio gofynnol ar gyfer ymgeiswyr sy'n ymgymryd â graddau ymchwil y Brifysgol, gan gyfeirio at y dulliau ymgeisyddiaeth a nodir yn adran 3. Gellir ystyried addasiadau priodol ar gyfer myfyrwyr sydd, trwy gais i'r Pwyllgor Graddau Ymchwil, yn derbyn sêl bendith i newid dull eu hymgeisyddiaeth.

i. Ymgeiswyr llawn amser (gweler is-baragraffau 3.2(i) a 3.2(ii)).

<i>Gradd</i>	<i>Isafswm</i>	<i>Uchafswm ar gyfer cyflwyno traethawd ymchwil</i>
MPhil	1 flwyddyn	3 blynedd
MPhil/PhD	3 blynedd	5 mlynedd

PhD	2 flynedd	4 blynedd
-----	-----------	-----------

ii. Ymgeiswyr rhan amser (gweler is-baragraffau 3.2(iii) a 3.2(iv)).

<i>Gradd</i>	<i>Isafswm</i>	<i>Uchafswm ar gyfer cyflwyno traethawd ymchwil</i>
PhD	3 blynedd	7 mlynedd

11.2 Nid yw'r cyfnodau astudio gofynnol yn cynnwys cyfnodau pan mae'r astudiaeth wedi'i gohirio yn unol â pharagraff 11.6.

11.3 Dim ond mewn amgylchiadau neilltuol y gellir caniatáu estyniad i uchafswm y cyfnodau cofrestru, yn ôl disgrisiwn pwyllgor perthnasol y Brifysgol, ar gais y Pwyllgor Graddau Ymchwil. Fel arfer caiff ceisiadau o'r fath eu hystyried yn dilyn cyngor y Cyfarwyddwr Astudio ac awdurdodau academaidd y Sefydliad/Canolfan.

11.4 Gall y Bwrdd Graddau a Dyfarniadau Academaidd ganiatáu i ymgeiswyr gael eu hesgusodi o isafswm y cyfnod astudio, ar argymhelliad y Pwyllgor Graddau Ymchwil, os bodlonir unrhyw un o'r meini prawf canlynol:

- i. bod gan yr ymgeiswyr radd Meistr o Brifysgol gymeradwy a enillwyd drwy ymchwil neu astudiaeth uwch, gyda'r Pwyllgor Graddau Ymchwil yn barnu ei bod yn darparu cefndir academaidd digonol i ganiatáu mynediad ar lefel uwch. Yn yr achosion hyn gall myfyrwyr gofrestru'n uniongyrchol am radd PhD drwy Ymchwil yn unol â pharagraff 11.5 isod;
- ii. bod yr ymgeiswyr wedi cwblhau o leiaf flwyddyn o waith ôl-raddedig llawn amser dan arolygiaeth, neu 2 flynedd yn rhan amser, yn yr un ddisgyblaeth academaidd â'r prosiect ymchwil PhD arfaethedig, gyda'r Pwyllgor Graddau Ymchwil o'r farn fod y gwaith yn ddigonol i ganiatáu cwblhau'r prosiect ymchwil mewn isafswm o 2 flynedd o astudiaeth lawn amser neu 3 blynedd yn rhan amser;
- iii. y darperir tystiolaeth foddhaol i'r Pwyllgor Graddau Ymchwil, yn cyfateb i (i) neu (ii) uchod, bod gan yr ymgeiswyr arbenigedd, profiad neu gymhwyster perthnasol digonol, uwch na gradd, at ddibenion cwblhau'r prosiect ymchwil PhD arfaethedig mewn isafswm o 2 flynedd o astudiaeth llawn amser neu 3 blynedd yn rhan amser.

11.5 Mewn achosion lle caniateir i ymgeiswyr gael eu hesgusodi o'r isafswm cyfnod astudio dan baragraff 11.4 uchod, bydd yr uchafswm cyfnod cofrestru yn 4 blynedd ar gyfer astudiaeth lawn amser a 7 mlynedd ar gyfer astudiaeth ran amser. Caiff myfyrwyr y mae'r Bwrdd Graddau a Dyfarniadau Academaidd yn caniatáu iddynt gael eu hesgusodi fel hyn gofrestru'n uniongyrchol am radd PhD drwy Ymchwil, fodd bynnag mae'n rhaid

i'r cyfnod astudio cofrestredig fod yn gyfartal neu'n fwy na'r cyfnod astudio a ddisgrifir dan baragraff 11.1 uchod. Rhaid i fyfyrwyr na chânt eu hesgusodi gofrestru am 'MPhil/PhD' (Meistr mewn Athroniaeth gyda'r posibilrwydd o drosglwyddo i radd Doethur mewn Athroniaeth), gyda'r trosglwyddiad yn amodol ar Adroddiad Trosglwyddo boddhaol.

- 11.6 Gall ymgeiswyr wneud cais i gael y cyfnod astudio wedi'i ohirio gan bwyllgor perthnasol y Brifysgol lle mae amgylchiadau neilltuol yn atal cynnydd boddhaol. Gellir argymhell cyfnod wedi'i ohirio o hyd at un flwyddyn. Os gwneud cais am ail gyfnod wedi'i ohirio ni chaiff ei ganiatáu oni bai bod yr amgylchiadau neilltuol yn debygol o fod wedi eu datrys yn ddigonol cyn diwedd yr ail gyfnod wedi'i ohirio i'r ymgeisydd gwblhau'r rhaglen ymchwil heb gais pellach am gyfnod wedi'i ohirio. Nid yw cyfnodau wedi'u gohirio yn cyfrif wrth gyfrifo isafswm ac uchafswm y cyfnod astudio.
- 11.7 Gelwir yr amser rhwng isafswm ac uchafswm y cyfnod astudio fel y cyfnod parhad. Gall y Sefydliad/Canolfan astudio ofyn i ymgeiswyr dalu ffi am y cyfnod parhad. Yn ystod y cyfnod parhad dylai ymgeiswyr ddisgwyl goruchwyliaeth barhaus ar lefel briodol yn ôl diffiniad y Sefydliad/Canolfan.

12 Penodi Goruchwylwyr

- 12.1 Rhaid i ymgeiswyr gael dim llai na dau oruchwylwr wedi eu cymeradwyo gan y Bwrdd Graddau a Dyfarniadau Academaidd, y mae'n rhaid i un ohonynt fod yn aelod o staff academaidd y Sefydliad neu Ganolfan gyda contract sy'n cyfateb i o leiaf 0.4 swydd lawn amser. Rhaid i un o'r goruchwylwyr fod yn Gyfarwyddwr Astudiaethau a fydd â chyfrifoldeb cyffredinol am waith y tîm goruchwylwyr.
- 12.2 Rhaid i o leiaf un o'r tîm goruchwylwyr fod â phrofiad o oruchwylwyr ymgeiswyr graddau ymchwil a gwblhaodd eu rhaglenni'n llwyddiannus ar y lefel briodol. Gyda'i gilydd, rhaid i aelodau'r tîm ddangos tystiolaeth o weithgarwch ymchwil diweddar ym maes pwnc y prosiect ymchwil, tystiolaeth o gyflawniadau ymchwil sylweddol (er enghraifft nifer o gyhoeddiadau neu grantiau neu ddyfarniadau) yn ogystal ag arbenigedd arall berthnasol sydd ei hangen i gwblhau dyletswyddau goruchwylwyr tîm.
- 12.3 Gellir penodi unigolion ag arbenigedd sy'n berthnasol i'r prosiect ymchwil nad ydynt yn gymwys i fod yn oruchwylwyr i'r tîm fel ymgynghorwyr.

13 Cynefino, Hyfforddiant a Datblygiad Proffesiynol

Mae'n ofynnol i ymgeiswyr am raddau MPhil drwy Ymchwil a PhD drwy Ymchwil yn y Brifysgol fynychu rhaglen gynefino a hyfforddiant mewn methodoleg ymchwil yn ystod cyfnod eu hymchwil a chynnal portffolio datblygiad proffesiynol.

14 Y Bwrdd Arholi

- 14.1 Swyddogaeth y Bwrdd Arholi yw sicrhau bod traethawd ymchwil a gyflwynwyd ar gyfer dyfarniad wedi cyrraedd y safon briodol, mai gwaith yr ymgeisydd sy'n cael ei arholi ydyw a bod yr ymgeisydd yn arddangos y nodweddion a ddisgwylir gan ddeiliaid y dyfarniad (gweler paragraffau 2.1 a 2.2).
- 14.2 Ac eithrio fel y nodir isod, rhaid i Fwrdd Arholi gynnwys y canlynol yn unig:

- Cadeirydd;
- Arholwr Mewnol;
- Arholwr Allanol.

Mewn achosion yn cynnwys y rheini lle:

- mae'r ymgeisydd yn aelod o staff y Sefydliad/Canolfan;
- mae'n profi'n amhosibl penodi arholwr mewnol naill ai o'r tu fewn i'r Sefydliad/Canolfan, neu o Sefydliad/Canolfan arall Prifysgol Cymru;
- gwneir achos am arholwr sydd â gwybodaeth arbenigol o faes yr ymgeisydd, ond nad yw'n bodloni'r meini prawf arferol am arholwr allanol;
- gwneir achos arbennig i, neu gan y Bwrdd Graddau a Dyfarniadau Academaidd.

bydd y Bwrdd Arholi yn hytrach yn cynnwys:

- Cadeirydd;
- Arholwr Allanol;
- Arholwr Allanol.

Rhaid i'r Cadeirydd fod yn brofiadol ac wedi derbyn hyfforddiant addas ac fel arfer yn Bennaeth Adran neu Ddeon (neu'n uwch aelod o staff sydd wedi ei enwebu ganddynt) yn y Sefydliad neu Ganolfan ble mae'r ymgeisydd sydd i'w arholi wedi cofrestru. Mewn Sefydliadau neu Ganolfannau gyda niferoedd bach o staff, a ble y gall hynny achosi problemau gydag annibyniaeth y Cadeirydd, gellir penodi Cadeirydd o Sefydliad neu Ganolfan arall. Pwyllgorau Graddau Ymchwil sy'n trefnu cyfansoddiad Byrddau Arholi, yn amodol ar gadarnhad gan y Bwrdd Graddau a Dyfarniadau Academaidd.

- 14.3 Ni chaiff aelod o dîm goruchwyllo ei benodi'n arholwr ar ymgeisydd er y gellir, gyda chydysniad yr ymgeisydd o flaen llaw, ei wahodd i fynychu'r arholiad llafar.
- 14.4 Os yw'n amhosibl penodi arholwr mewnol priodol oddi fewn i'r Sefydliad/Canolfan, gellir penodi arholwr mewnol o Sefydliad neu Ganolfan arall o Brifysgol Cymru.
- 14.5 Mewn amgylchiadau neilltuol, os yw'n profi'n amhosibl penodi arholwr mewnol naill ai oddi fewn i'r Sefydliad/Canolfan neu o Sefydliad/Canolfan arall o'r fath o Brifysgol Cymru, gall y Bwrdd Graddau a Dyfarniadau Academaidd, ar argymhelliad y Pwyllgor Graddau Ymchwil, benodi ail arholwr allanol a enwebir gan y Bwrdd hwnnw yn lle arholwr mewnol.
- 14.6 Rhaid i arholwr(wyr) allanol fod yn ymwybodol o natur a phwrpas y radd y mae'r ymgeisydd yn cael ei arholi amdani a rhaid iddynt feddu ar allu a gwybodaeth arbenigol ym maes y prosiect ymchwil yn ogystal â phrofiad o arholi graddau ymchwil.

15 Arholiadau

- 15.1 Arholir ymgeiswyr ar gyfer graddau MPhil drwy Ymchwil a PhD drwy Ymchwil ar sail y gwaith a gyflwynir ganddynt.

- 1.2. Mae dau gam i'r broses arholi:

- i. archwiliad annibynnol rhagarweiniol o'r traethawd ymchwil gan yr arholwyr mewnol ac allanol, a gymeradwyir i'r pwrpas gan y Brifysgol, ac a fydd yn paratoi adroddiadau interim annibynnol ar y traethawd;
- ii. arholiad llafar a gynhelir gan Fwrdd Arholi.

- 15.3 Ni ellir hepgor yr arholiad llafar ac eithrio yn achos traethawd wedi'i ailgyflwyno ac yn unol â disgresiwn y Bwrdd Arholi, ac mewn achos o'r fath mae argymhelliad y Bwrdd yn seiliedig ar y ffaith fod yr arholwyr yn arholi'r traethawd am yr eildro. Rhaid i arholwyr ddarparu adroddiad llawn os yw'r arholiad yn ymwneud â thraethawd wedi'i ailgyflwyno, pa un ai a yw'r angen am ail arholiad llafar wedi ei hepgor ai peidio.
15. Yn dilyn yr arholiad llafar, mae'n ofynnol i'r Bwrdd Arholi ddarparu adroddiad ar yr arholiad a gwneud un o'r argymhellion canlynol i'r Bwrdd Graddau a Dyfarniadau Academaidd:

1 Yn achos ymgeiswyr am radd MPhil drwy Ymchwil:

- a) y dylid cymeradwyo'r ymgeisydd am radd MPhil drwy Ymchwil;
- b) y dylid cymeradwyo'r ymgeisydd am radd MPhil drwy Ymchwil yn amodol ar gwblhau'n foddhaol y cywiriadau a'r newidiadau hynny all fod yn ofynnol yn ôl y Bwrdd Arholi. Gall y Bwrdd Arholi fynnu bod y cywiriadau a wnaed yn cael eu harchwilio gan y naill arholwr neu'r llall, neu'r ddau arholwr, cyn cychwyn ar y broses ddyfarnu. Fel arfer, dylid cwblhau'r cywiriadau o fewn 12 wythnos waith i'r dyddiad yr hysbyswyd yr ymgeisydd yn swyddogol o ganlyniad yr arholiad;
- c) y dylid caniatáu i'r ymgeisydd ddiwygio'r traethawd a'i ailgyflwyno am radd MPhil drwy Ymchwil ar un achlysur arall drwy dalu unrhyw ffi ailgyflwyno ofynnol. Mewn amgylchiadau o'r fath, gellir cynnal arholiad llafar pellach, neu beidio, yn ôl disgresiwn y Bwrdd Arholi. Ailgyflwynir y traethawd o fewn cyfnod o flwyddyn ar y mwyaf i'r dyddiad yr hysbyswyd yr ymgeisydd yn swyddogol o ganlyniad yr arholiad. (Nid yw'r opsiwn hwn ar gael yn achos ymgeisydd sydd wedi ailgyflwyno traethawd i'w arholi.);
- d) na ddylid cymeradwyo'r ymgeisydd am radd MPhil drwy Ymchwil.

2 Yn achos ymgeisydd am radd PhD drwy Ymchwil:

- a) y dylid cymeradwyo'r ymgeisydd am radd PhD drwy Ymchwil;
- b) y dylid cymeradwyo'r ymgeisydd am radd PhD drwy Ymchwil yn amodol ar gwblhau'n foddhaol y cywiriadau a'r newidiadau hynny all fod yn ofynnol yn ôl y Bwrdd Arholi. Gall y Bwrdd Arholi fynnu bod y cywiriadau a wnaed yn cael eu harchwilio gan y naill arholwr neu'r llall, neu'r ddau arholwr, cyn cychwyn ar y broses ddyfarnu. Fel arfer, dylid cwblhau'r cywiriadau o fewn 12 wythnos waith i'r dyddiad yr hysbyswyd yr ymgeisydd yn swyddogol o ganlyniad yr arholiad;
- c) y dylid caniatáu i'r ymgeisydd ddiwygio'r traethawd a'i ailgyflwyno am radd PhD drwy Ymchwil ar un achlysur arall drwy dalu unrhyw ffi ailgyflwyno ofynnol. Mewn amgylchiadau o'r fath, gellir cynnal arholiad llafar pellach, neu beidio, yn ôl disgresiwn y Bwrdd Arholi. Ailgyflwynir y traethawd o fewn cyfnod o flwyddyn ar y mwyaf i'r dyddiad yr hysbyswyd yr ymgeisydd yn swyddogol o ganlyniad yr arholiad. (Nid yw'r opsiwn hwn ar gael yn achos ymgeisydd sydd wedi ailgyflwyno traethawd i'w arholi.);
- d) na ddylid cymeradwyo'r ymgeisydd am radd PhD drwy Ymchwil ond y dylid ei gymeradwyo yn hytrach am radd MPhil drwy Ymchwil yn amodol lle bo hynny'n briodol ar gwblhau'n foddhaol y mân gywiriadau hynny all fod yn ofynnol yn ôl y Bwrdd Arholi. Mewn amgylchiadau o'r fath, gellir cynnal arholiad llafar pellach, neu beidio, yn ôl disgresiwn y Bwrdd Arholi. Gall y Bwrdd Arholi fynnu bod y cywiriadau a wnaed yn cael eu harchwilio gan y naill arholwr neu'r llall, neu'r ddau arholwr, cyn cychwyn ar y broses ddyfarnu. Rhaid cwblhau'r cywiriadau o fewn 12 wythnos waith i'r dyddiad yr hysbyswyd yr ymgeisydd yn swyddogol o ganlyniad yr arholiad;

- e) na ddylid cymeradwyo'r ymgeisydd am radd PhD drwy Ymchwil ond y dylid caniatáu iddo ddiwygio'r traethawd a'i ailgyflwyno am radd MPhil drwy Ymchwil ar un achlysur arall drwy dalu'r ffi arholi. Mewn amgylchiadau o'r fath, gellir cynnal arholiad llafar pellach, neu beidio, yn ôl disgrisiwn y Bwrdd Arholi. Dylid ailgyflwyno'r traethawd o fewn cyfnod o flwyddyn ar y mwyaf i'r dyddiad yr hysbyswyd yr ymgeisydd yn swyddogol o ganlyniad yr arholiad. (Nid yw'r opsiwn hwn ar gael yn achos ymgeisydd sydd wedi ailgyflwyno traethawd i'w arholi.);
- f) na ddylid cymeradwyo'r ymgeisydd am radd.

15.5 Ni all ymgeiswyr y dyfarnwyd iddynt radd MPhil drwy Ymchwil ar sail ymgeisyddiaeth PhD yn unol â darpariaethau is-baragraffau (iv) neu (v), ymgeisio am radd PhD drwy Ymchwil yn ddiweddarach heb ddilyn cynllun ymchwil newydd.

15.6 Os bydd anghytuno rhwng yr arholwyr, dylai pob un ohonynt gyflwyno adroddiad ac argymhelliad ar wahân i'r Gofrestrfa Academaidd o fewn 10 diwrnod gwaith o ddyddiad yr arholiad llafar.

16 Trosglwyddo o MPhil/PhD drwy Ymchwil i PhD drwy Ymchwil

16.1 Gellir trosglwyddo o fewn y cyfnodau amser a bennwyd ar gyfer ymgeiswyr sydd wedi cofrestru ar gyfer MPhil/PhD drwy Ymchwil (gweler paragraff 9.4).

16.2 Rhaid i ymgeiswyr gyflwyno adroddiad ysgrifenedig i'w tîm goruchwylio yn cynnwys rhyw 3,000 i 6,000 o eiriau, a all fod ar ffurf penodau'r traethawd. Ym mhob achos dylai'r adroddiad ddarparu cyd-destun ar gyfer yr ymchwil neu'r adolygiad llenyddiaeth, disgrifiad o'r cynnydd hyd yn hyn a chynnig clir ar gyfer cam nesaf yr astudiaeth.

16.3 Rhaid i'r tîm goruchwylio, ynghyd ag asesydd annibynnol, ffurfio panel i gyfweld yr ymgeisydd ar sail ei adroddiad.

Hysbysir ymgeiswyr o ganlyniad y broses gyfweld yn ysgrifenedig gan gadeirydd y panel, ynghyd ag adborth, a bydd y canlyniad yn un o'r canlynol:

- i. bod y panel yn cymeradwyo'r cais i drosglwyddo i PhD drwy Ymchwil;
- ii. bod aelodau'r panel yn cefnogi'r cais yn amodol ar rai amodau a nodir yn glir. Yn yr achos hwn, rhaid i'r panel nodi beth y dylid mynd i'r afael ag ef er mwyn i'r cais gael ei gefnogi gan roi syniad o'r amserlen ar gyfer cwblhau'r gwaith hwn;
- iii. bod aelodau'r panel yn gwrthod y cais y tro hwn ac yn argymhell y dylid caniatáu rhagor o amser i'r ymgeisydd gyrraedd y lefel ofynnol. Fel arfer, estynnir y cyfnod hwn am hyd at 6 mis yn achos ymgeiswyr llawn amser neu hyd at 12 mis ar gyfer ymgeiswyr rhan amser, ond yn y naill achos neu'r llall ni ellir mynd dros y cyfyngiad amser ar gyfer trosglwyddo a nodir ym mharagraff 9.4 y rheoliadau hyn;
- iv. bod aelodau'r panel yn gwrthod y cais ac yn ail-gadarnhau'r cofrestrriad am MPhil drwy Ymchwil;
- v. y gofynnir i'r ymgeisydd dynnu'n ôl.

Rhaid i'r panel dilyniant gyflwyno ei argymhelliad mewn adroddiad er mwyn i'r Pwyllgor Graddau Ymchwil ei gadarnhau.

16.4 Mae gan ymgeiswyr yr hawl i apelio yn erbyn gwrthod cais i drosglwyddo (dan baragraffau 16.3 (iv) a (v)) yn unig.

17 Apeliadau

- 17.1 Mae gan ymgeiswyr yr hawl i apelio yn erbyn penderfyniadau'n ymwneud â chymeradwyo cynigion, trosglwyddo, terfynu astudiaeth, neu mewn rhai amgylchiadau dilys, yn erbyn canlyniad y broses arholi, yn unol â'r gweithdrefnau a sefydlwyd i'r diben hwnnw.

Atodiad 1: Fformatio, Rhwymo a Chyflwyno'r Traethawd Ymchwil

1. *Fformat y Traethawd Ymchwil*

- 1.1 Mae ymchwil ymgeisydd am radd MPhil neu PhD i'w gwblhau trwy gyflwyno traethawd ymchwil sy'n ymgorffori dulliau a chanlyniadau'r ymchwil.
- 1.2 Dylid ysgrifennu'r traethawd ymchwil yn y Gymraeg neu'r Saesneg. Caniateir defnyddio dyfyniadau byr mewn ieithoedd eraill.
- 1.3 Rhaid i hyd y traethawd ymchwil fod yn briodol i'r maes pwnc dan sylw ac ni ddylai fod yn hwy na'r canlynol, gan eithrio troednodiadau a chyfeiriadau:

PhD	100,000 o eiriau,
MPhil	60,000 o eiriau.

Caniateir cynnwys atodiadau yn y traethawd ar gyfer cyflwyno data a/neu ddeunydd nad oes angen i'r arholwyr ei ddarllen er mwyn arholi'r traethawd yn ddigonol, ond y gallent gyfeirio ato os ydynt yn dymuno.

Ni ddylai elfen ysgrifenedig PhD seiliedig ar waith ymarferol fod yn llai na 20,000 nac yn fwy na 50,000 o eiriau. Ni ddylai MPhil seiliedig ar waith ymarferol fod yn llai na 10,000 nac yn fwy na 25,000 o eiriau. Bydd y cydbwysedd rhwng yr elfennau ysgrifenedig ac ymarferol yn cael ei bennu gan fyfyrwyr unigol, mewn ymgynghoriad â'u goruchwylwyr. Mewn ymchwil seiliedig ar ymarfer disgwylir i'r myfyriwr gyflwyno corff sylweddol o waith creadigol, curaduradol neu gyhoeddedig ar ffurf arddangosfa/cyfyngau/perfformiad neu ddogfennau priodol ar gyfer yr arholiad terfynol. Dylai agwedd ar elfen ysgrifenedig PhD neu MPhil seiliedig ar ymarfer osod y gwaith mewn cyd-destun hanesyddol, damcaniaethol, beirniadol a/neu mewn cyd-destun dylunio.

Ni chaniateir cyflwyno traethawd ymchwil hwy na'r hyn a nodir uchod oni cheir sêl bendith y Pwyllgor Graddau Ymchwil. Rhaid gwneud cais i'r Pwyllgor Graddau Ymchwil i ysgrifennu mwy na'r uchafswm a bennir ymhell cyn hysbysu y bwriedir cyflwyno'r traethawd.

- 1.4 Nid oes manylion wedi'u pennu ar gyfer fformat mewnol y traethawd ymchwil, ond dylid trafod y strwythur gyda'r goruchwylwyr a defnyddio'r strwythur mwyaf priodol i'r maes pwnc. Bydd yr arholwyr yn disgwyl i gyflwyniad y traethawd fod yn raenus gyda threfn gyson o ran mynegeio a chyfeirnodol gydol y gwaith.
- 1.5 Rhaid cyflwyno pob copi o draethawd ymchwil, boed at ddibenion arholi neu i'w gadw mewn llyfrgell, ar ffurf barhaol a darllenadwy mewn teipysgrif neu brint ac mewn fformat electronig. Dylai fod copi electronig ar ffurf dogfen Adobe PDF (gweler "Gweithdrefn cyflwyno e-draethodau ymchwil" am arweiniad ynghylch fformatio a throsi ffeiliau). Rhaid i'r llythrennau a ddefnyddir yn y prif destun (ond nid o reidrwydd yn y darluniau, mapiau ac ati) beidio â bod yn llai na 12pt; rhaid i lythrennau a ddefnyddir ym mhob testun arall, nodiadau, troednodiadau ac yn y blaen, beidio â bod yn llai na 10pt. Rhaid i'r teipio fod o ansawdd cyson gyda llythrennau du clir, fel y gellir llungopio'r gwaith. Rhaid defnyddio bylchiad dwbl neu un a hanner yn y prif destun, a bylchiad sengl yn y crynodeb ac mewn unrhyw ddyfyniadau wedi'u mewnoli a throednodiadau.
- 1.6 Rhaid i ddarluniau a brasluniau fod mewn inc du; rhaid hepgor unrhyw fanylion dianghenraid a rhaid defnyddio graddfa sy'n sicrhau nad yw'r gofod lleiaf rhwng y llinellau

yn llai nag 1mm. Gellir defnyddio graffigwaith lliw ar gyfer siartiau, diagramau ac ati yn ogystal â ffotograffau lliw, ond rhaid i ymgeiswyr sicrhau ym mhob achos bod modd llungopïo a microffilmio'r deunydd. Gellir cynnwys delweddau wedi'u sganio yn y copi electronig. Mae copïau a gynhyrchwyd drwy broses serograffig neu brosesau parhaol tebyg yn dderbyniol. Dylid cyflwyno'r traethodau ymchwil ar bapur A4 (297mm x 210mm) o ansawdd da ac yn ddigon didraidd ar gyfer dibenion darllen arferol.

1.7 Dylai lled yr ymylon fod yn ddim llai na'r meintiau canlynol:

Ymyl fewnol	40mm
Ymyl uchaf ac allanol	15mm
Ymyl isaf	20mm

Dylid rhifo'r tudalennau yn olynol. Rhaid darparu rhestr gynnwys a thabl o ddarluniau (os oes rhai).

1.8 Oddi mewn i'w rwywiad rhaid i'r traethawd ymchwil gynnwys:

- i. crynodeb nad yw'n hwy na 300 o eiriau i'w roi ar flaen y traethawd;
- ii. datganiad, wedi'i lofnodi gan yr ymgeisydd, yn dangos i ba raddau y mae'r gwaith a gyflwynir yn ganlyniad i ymchwil yr ymgeisydd ei hun;
- iii. datganiad, wedi'i lofnodi gan yr ymgeisydd, i dystio nad yw sylwedd y gwaith eisoes wedi'i dderbyn am radd ac nad yw'n cael ei gyflwyno ar yr un pryd mewn ymgeisyddiaeth am unrhyw radd arall;
- iv. datganiad wedi'i arwyddo ynglŷn ag argaeledd y traethawd ymchwil (gweler paragraff 1.11).

1.9 Ar ei dudalen deitl rhaid i'r traethawd gynnwys:

- i. enw llawn a graddau'r awdur;
- ii. y teitl;
- iii. y radd y cynigir y traethawd amdani ac enw'r corff dyfarnu;
- iv. y ddisgyblaeth neu'r disgyblaethau y perthyn iddynt;
- v. y dyddiad cyflwyno;
- vi. enwau'r Cyfarwyddwr Astudiaethau a'r ail oruchwylydd/oruchwylwyr;
- vii. enw(au) unrhyw sefydliad(au) cydweithredol;
- viii. datganiad sy'n nodi i'r ymchwil gael ei gyflwyno dan nawdd y Sefydliad/Canolfan i gyflawni'n rhannol y gofynion ar gyfer dyfarnu Gradd Prifysgol Cymru.

1.10 Caiff ymgeiswyr gyflwyno deunydd nad yw wedi'i rwymo gyda'r traethawd os mai hwn yw'r dull mwyaf priodol o gyflwyno'r wybodaeth dan sylw. Gallai'r deunydd gynnwys diagramau, mapiau a dogfennau tebyg eraill, neu ddeunydd megis recordiadau sain neu fideo, sleidiau, ffilmiau ayb. Yn y traethawd dylid darparu rhestr o'r eitemau sydd ar wahân. Dylid cynnwys copïau electronig o'r deunydd ychwanegol hwn ynghyd â chopi electronig o'r traethawd. Rhaid amgáu unrhyw ddeunydd o'r math hwn mewn cynhwysydd sy'n addas i'w storio ar silff lyfrgell a rhaid nodi ar y cynhwysydd yr un wybodaeth ag sy'n ofynnol ar feingefn y traethawd, mewn man priodol fel ei bod yn ddarllenadwy pan fydd y cynhwysydd yn ei safle storio (gweler paragraff 2.2).

1.11 Fel arfer bydd traethawd a gyflwynir am radd ymchwil ar gael i bawb a heb fod yn ddarostyngedig i unrhyw ddisbarthiad diogelwch na chyfyngiad ar yr hawl i'w weld. Gall y Bwrdd Graddau a Dyfarniadau Academaidd fodd bynnag gymeradwyo gwahardd llungopïo traethawd ymchwil a / neu atal yr hawl i'w weld am gyfnod penodedig o hyd at bum mlynedd. Lle bynnag y bo hynny'n berthnasol, dylai'r ymgeisydd wneud cais i'r Pwyllgor Graddau Ymchwil ynghylch gwahardd llungopïo'r traethawd a/neu atal yr hawl i'w weld cyn neu ar adeg cofrestru prosiect ymchwil yr ymgeisydd, neu ar ôl hynny.

Wrth gyflwyno'r traethawd ymchwil, bydd yn ofynnol i ymgeiswyr lofnodi datganiad sy'n dynodi:

- i. y trefnir bod y traethawd ymchwil, os yw'n llwyddiannus, ar gael i'w fenthycu rhwng llyfrgelloedd neu i'w lungopïo (yn amodol ar gyfraith hawlfraint), ac y gellir trefnu bod y teitl a'r crynodeb ar gael i gyrrff allanol;
- ii y gall y Brifysgol storio'n electronig, gopïo neu drosi'r traethawd ymchwil i unrhyw gyfrwng neu fformat cymeradwy er mwyn ei gadw i'r dyfodol a sicrhau bod modd ei weld.
- iii y bydd y traethawd a adneuir yn y gadwrfa ddigidol ar gael i amrywiaeth eang o bobl a sefydliadau ei weld, gan gynnwys cyfryngau awtomataidd a pheiriannau chwilio trwy gyfrwng y We Fyd-Eang.
- iv unwaith yr adneuir y traethawd, y gellir ymgorffori'r eitem a'i meta data mewn catalogau neu wasanaethau sy'n agored i'r cyhoedd, megis cronfeydd data cenedlaethol o draethodau electronig.

neu

- v y gellir trefnu y bydd y traethawd ymchwil, os yw'n llwyddiannus, ar gael yn y modd hwn wedi i'r gwaharddiad rhag ei lungopïo a/neu'i weld ddod i ben.

Fel rheol, bydd teitl a chrynodeb y traethawd ymchwil ar gael i bawb.

2. ***Rhwymo'r Traethawd Ymchwil***

2.1 Caiff ymgeisydd sy'n cyflwyno traethawd ymchwil am radd uwch i'w arholi gyflwyno'r traethawd mewn rhwymiad dros dro. Wedi iddo gael ei arholi dylid rhwymo pob copi o'r traethawd yn barhaol i'w storio mewn llyfrgell.

2.2 Bydd rhwymiad dros dro yn caniatáu i'r ymgeisydd gwblhau unrhyw gywiriadau sy'n ofynnol gan yr arholwyr heb orfod dadrwymo ac yna ad-drefnu'r traethawd ymchwil. Er mwyn ei arholi, rhaid i bob copi fod â'i ddalennau wedi'u dal yn gadarn mewn ffolder neu ffeil neu gan feingefn (h.y. wedi'u dal yn eu lle fel bod y tudalennau'n parhau'n ddiogel o fewn y cloriau pan agorir y gyfrol yn llawn). Nid yw ffolderi sy'n rhyddhau tudalennau wrth eu hagar, ffeiliau modrwy na thudalennau rhydd mewn ffolder ar ffurf waled yn dderbyniol.

Rhaid i draethawd sydd wedi'i rwymo dros dro fod yn ddigon cadarn i wrthsefyll cael ei gludo. Rhaid iddo gynnwys ar y meingefn enw'r ymgeisydd, enwau'r Brifysgol, a'r radd y mae'n ymgeisio amdani, a hynny mewn modd na ellir yn hawdd ei ddileu na'i ddatgysylltu.

2.3 Yn dilyn arholiad llwyddiannus a/neu gwblhau adolygiadau i'r traethawd ymchwil yn llwyddiannus, rhaid rhwymo'r traethawd yn barhaol i'w adneuo mewn llyfrgell. Mae rhwymo'n barhaol yn golygu gwnïo'r traethawd ag edau a'i rwymo mewn rhwymiad sefydlog o gloriau cerdyn du gyda lliain, neu liain i gyd, ar ffurf llyfr clawr caled. Rhaid i'r cloriau fod yn ddigon cadarn i gynnal pwysau'r gwaith pan fydd yn sefyll ar silff. Yn achos pob gwaith sydd i'w adneuo mewn llyfrgelloedd, rhaid i'r cyfrolau a rwymwyd yn barhaol gynnwys ar eu meingefn gyfenw a blaenlythrennau'r ymgeisydd, teitl llawn neu deitl talfyredig y gwaith, enw'r radd y'i cyflwynir amdani a'r dyddiad cyflwyno. Rhaid i'r wybodaeth hon gael ei phrintio ar hyd y meingefn yn y fath fodd fel y bo'n ddarllenadwy pan fo'r gyfrol yn gorwedd ar ei chefn gyda'r clawr blaen ar i fyny. Os yw'r gwaith yn cynnwys mwy nag un gyfrol dylid nodi rhif pob cyfrol ar y meingefn yn ogystal.

Dylai'r un wybodaeth ymddangos ar glawr blaen y traethawd.

Rhaid i'r llythrennau ar y meingefn a'r clawr blaen fod yn aur.

3. **Cyflwyno'r traethawd ymchwil**

3.1 O fewn y cyfnod cofrestru rhaid i'r ymgeisydd gyflwyno i'r Gofrestrfa Academaidd:

- i. ddau gopi o'r traethawd ymchwil, boed wedi'u rhwymo dros dro neu'n barhaol, ac unrhyw ddeunydd ar wahân;
- ii. copi rhydd ychwanegol o'r crynodeb y cyfeirir ato ym mharagraff 1.8 wedi'i drawsgrifio ar y ffurflen angenrheidiol;
- iii. datganiad wedi'i lofnodi ynghylch argaeledd y traethawd ymchwil;
- iv. dwy ffurflen 'Hysbysu am Ymgeisyddiaeth' wedi'u cwblhau, gyda chopïau ar gael o'r Gofrestrfa Academaidd;
- v. tystiolaeth ofynnol gan y Sefydliad/Canolfan i ddangos bod yr holl ymrwymadau, yn cynnwys talu ffioedd ac arian sy'n ddyledus, wedi'u talu.

Ni chaiff ymgeisydd ddiwygio, ychwanegu at na dileu o'r traethawd ymchwil na'i dynnu'n ôl wedi iddo gael ei gyflwyno a chyn iddo gael ei arholi, ac eithrio gyda chydsyniad Cadeirydd y Bwrdd Arholi.

Atodiad 2: Trosglwyddo Ymgeisyddiaeth

Yr egwyddor gyntaf yw sefydlu pa gyfran o astudiaeth llawn amser neu ran amser y mae ymgeisydd wedi ei chwblhau yn barod. Yna, trowch y cyfnod o amser sydd ar ôl i'w gyfwerth llawn amser neu ran amser. Dyddiad cynharaf cyflwyno yw'r cyfnod newydd o astudiaeth llai chwe mis. Er enghraifft:

A : Llawn amser i Ran amser

<i>Cyfnod gwreiddiol yr astudiaeth llawn amser:</i>	Dwy flynedd (chwe thymor) o Hydref 2009
<i>Cyfnod cyfwerth ar gyfer astudiaeth rhan amser:</i>	Tair blynedd (naw thymor) o Hydref 2009
<i>Astudiaeth llawn amser wedi ei gwblhau:</i>	Tri thymor hyd 30 Medi 2010
<i>Cyfran yr astudiaeth wedi ei chwblhau:</i>	Un hanner – felly bydd gweddill y cyfnod astudio rhan amser yn un hanner o naw thymor, hy pum tymor (yn grwn)
<i>Cyfnod astudio newydd:</i>	Pum tymor o 1 Hydref 2010, hy 15 Ebrill 2012
<i>Dyddiad cyflyno cynharaf:</i>	15 Hydref 2011 (cyfnod newydd o astudiaeth llai chwe mis)

B : Rhan amser i Lawn amser

<i>Cyfnod gwreiddiol yr astudiaeth rhan amser</i>	Tair blynedd (naw thymor) o Hydref 2009
<i>Cyfnod cyfwerth ar gyfer astudiaeth llawn amser:</i>	Dwy flynedd (chwe thymor) o Hydref 2009
<i>Astudiaeth rhan amser wedi ei gwblhau:</i>	Pedwar tymor hyd 31 Rhagfyr 2010
<i>Cyfran yr astudiaeth wedi ei chwblhau:</i>	Pedair rhan o naw – felly bydd gweddill y cyfnod astudio llawn amser yn bum rhan o naw o chwe thymor, hy pedwar tymor (yn grwn)

Cyfnod astudio newydd:

Pedwar tymor o 1 Ionawr 2011, hy, 15 Ebrill 2012

Dyddiad cyflyno cynharaf:

15 Hydref 2011 (cyfnod newydd o astudio llai
chwe mis)